# Canlyniadau Cam 1: Ymatebion Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli




## Crynodeb (Ionawr 2022)

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Bwriad y prosiect 'Ardal Ni 2035' ydi cynnal sgwrs a thrafod efo cymunedau lleol er mwyn adnabod be sy'n bwysig i drigolion a sut hoffan nhw weld yr ardal yn datblygu dros y 10-15 mlynedd nesaf.

**1.2** Ein bwriad yw cyd-weithio a chyd-ddatblygu datrysiadau gyda sefydliadau, grwpiau ac unigolion. Ar ddiwedd y prosiect bydd 13 fframwaith adfywio penodol sy'n adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol.

**1.3** Fel rhan gyntaf i'r gwaith, cynhaliwyd sgyrsiau cychwynnol gyda Chynghorwyr, Cynghorau Cymuned a Thref a grwpiau adfywio lleol er mwyn sefydlu:

- Beth sy'n dda am yr ardal?
- Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?
- Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi?

**1.4** Anfonwyd gwahoddiad, ynghyd a datganiadau ardal (sef llyfrynnau oedd yn crynhoi'r prif ddata economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i holl Gynghorwyr, Gynghorau Cymuned a'r prif grwpiau lleol.

**1.5** Rhwng Medi a Tachwedd, 2021 cynhaliwyd trafodaeth gyda **14** o Gynghorau Cymuned / Tref, mudiadau, grwpiau, Aelodau leol ac unigolion dalgylch Pwllheli.

**1.6** Mae trafodaethau cychwynnol hefyd wedi eu cynnal gyda phobl ifanc yr ardal drwy'r gwasanaeth ieuenctid. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau yn **atodiad 3.**

## 2. Beth sy’n dda am eich ardal?

Dyma’r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli yn nodi oedd yn **dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Yr iaith / diwylliant Gymraeg | 13 |
| Amgylchedd ac agosatrwydd at atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad | 9 |
| Ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol | 8 |
| Gweithgareddau cymdeithasol e.e. clybiau chwaraeon, corau | 7 |
| Mudiadau, elusennau, mentrau a grwpiau gweithredol | 6 |
| Cyfleoedd a manteision denu twristiaeth / ymwelwyr | 4 |
| Cynnyrch a busnesau lleol | 4 |
| Mwynderau a chyfleusterau e.e. siopau, caffis, bwytai | 4 |
| Gwirfoddolwyr | 4 |
| Ardal ddiogel a saff | 3 |
| Treftadaeth a hanes yr ardal | 3 |
| Cyfleusterau hamdden e.e. Canolfan, Sinema, Llyfrgell | 2 |
| Llwybrau cerdded a beicio a llwybr arfordir | 1 |
| Cyfleoedd swyddi a hunangyflogaeth | 1 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus da | 1 |

## 3. Beth sydd ddim mor dda am eich ardal?

Dyma'r prif bethau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli yn nodi oedd **ddim mor dda** am eu hardal:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Diffyg tai fforddiadwy i bobl leol | 10 |
| Economi leol a diffyg adnoddau e.e. Swyddfa bost, gwesty ac angen adfywio canol trefi | 9 |
| Diffyg swyddi cyflog uchel / llawn amser | 9 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol | 7 |
| Pryderon am ddarpariaeth iechyd, lles a gofal | 6 |
| Sbwriel, blerwch ac edrychiad cyffredinol yr ardal | 6 |
| Nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal | 5 |
| Problemau ac effaith gor-dwristiaeth | 5 |
| Problemau yn ymwneud a ffyrdd a pharcio | 5 |
| Diffyg darpariaeth a gweithgareddau i bobl ifanc e.e. clwb ieuenctid | 5 |
| Pryder am Gynllunio Tai / Cynllun Datblygu Lleol | 4 |
| Pobl ifanc yn gadael yr ardal | 3 |
| Tlodi yn yr ardal | 3 |
| Ymddygiad gwrthgymdeithasol a diffyg presenoldeb yr Heddlu | 3 |
| Prinder tai o safon i'w rhentu | 3 |
| Band eang / cysylltiad we wael | 2 |
| Diffyg llwybrau cerdded o safon / diogel | 2 |
| Costau bancio i fudiadau lleol | 2 |
| Dim man ymgynnull / hwb cymunedol | 2 |
| Diffyg gwesty ym Mhwllheli | 2 |
| Dim digon o bwyntiau gwefru ceir | 2 |
| Y broses o drosglwyddo asedau cymunedol yn cymryd amser | 2 |
| Yr iaith / diwylliant yn colli tir a ddiffyg cyfle i ddysgwyr | 2 |
| Mae angen gwneud mwy o gynnyrch lleol a threftadaeth yr ardal | 1 |
| Cyflwr toiledau cyhoeddus | 1 |
| Diffyg arweinyddiaeth leol a chymunedol | 1 |
| Dim digon o ystyriaeth i adnoddau amgylcheddol | 1 |
| Cyngor Cymuned yn gorfod darparu biniau halen | 1 |
| Anfodlon efo darpariaeth Addysg Uwch | 1 |
| Anodd recriwtio i'r maes lletygarwch | 1 |
| Llifogydd difrifol yn rhannau o'r ardal | 1 |

## 4. Pa newidiadau fyswch chi'n dymuno eu gweld yn digwydd yn eich ardal yn ystod y 15 mlynedd nesaf, fysa'n gwneud eich ardal yn well lle i fyw ynddi? (adnabod hyd at 3 newid)

Dyma'r prif newidiadau oedd Cynghorau Cymuned / Tref, grwpiau a mudiadau Dalgylch Pwllheli am eu gweld yn digwydd yn ystod y 15 mlynedd nesaf:

| Thema | Nifer wnaeth nodi hyn yn eu hymateb |
|---|---|
| Cynlluniau i sicrhau tai sy'n addas i anghenion bobl leol | 9 |
| Creu gwaith a swyddi gwerth uchel | 9 |
| Twristiaeth gynaliadwy er mwyn uchafu gwerth economaidd i'r ardal | 8 |
| Mwy anogaeth i'r iaith / diwylliant er mwyn ffynnu a helpu dysgwyr | 8 |
| Cefnogaeth i Fentrau, grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned / Tref | 6 |
| Cefnogi busnesau lleol i sefydlu a ffynnu | 5 |
| Rhagor o adnoddau iechyd, llesiant a gofal | 5 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus – hygyrch, integredig ac addas i anghenion lleol | 5 |
| Darparu rhagor o gyfleusterau ar gyfer pobl ifanc | 5 |
| Gwneud yn fwy o atyniadau hanesyddol a diwylliannol | 4 |
| Ardal fwy gwyrdd - ynni adnewyddadwy, di-blastig, pwyntiau gwefru | 4 |
| Gwireddu potensial adeiladau gwag | 3 |
| Deddfwriaeth er mwyn cael gwell reolaeth ar dai haf / ail gartrefi | 2 |
| Cynnal a datblygu llwybrau beicio a llwybrau cerdded | 2 |
| Addysg i bwrpas sy'n uchafu sgiliau pobl ifanc | 2 |
| Cynyddu potensial yr adnodd hwylio / Doc Pwllheli | 2 |
| Uchafu potensial yn y maes lletygarwch e.e. gwesty ym Mhwllheli | 3 |
| Mwy o bresenoldeb heddlu | 2 |
| Gwell cydweithio ar lefel lleol e.e. Rhwng mudiadau, mentrau a Chynghorau Cymuned | 2 |
| Gwneud mwy i atal llifogydd | 1 |
| Swyddogion i gadw cymunedau yn lan a thaclus | 1 |
| Creu is-adeiladaeth band eang | 1 |
| Pwyslais ar gymunedau llai er mwyn dosbarthu treth Cyngor yn well | 1 |
| Gwariant ar yr amgylchfyd | 1 |
| Pobl ifanc i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu cymuned e.e. Drwy'r pwyllgorau | 1 |
| Digon o feysydd parcio | 1 |
| Sefydlu Gŵyl Fwyd Pwllheli | 1 |
| Angen Cynllun economaidd i'r ardal | 1 |
| Mwy o gefnogaeth i bobl – cyfeirio pobl at y cymorth cywir | 1 |

## 5. Cwestiynau ychwanegol

### 5.1 Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu hangen?

Dyma restr o'r holl sefydliadau a grwpiau oedd yn cael eu nodi mewn ymateb i'r cwestiwn yma yn Nalgylch Pwllheli:

- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd
- Sefydliad y Merched
- Clwb y Bont
- Amgueddfa Lloyd George
- Tŷ Newydd Llanystumdwy
- Menter y Plu
- Pobl y gymuned
- Y Ganolfan
- Pwyllgor Cae Chwarae
- Antur Aelhaearn
- Canolfan Cydweithredol
- Llywodraeth Cymru
- Ffermwyr Ifanc
- Llywodraethwyr Ysgol
- Clwb drama
- Capeli ag Eglwysi
- Cynghorau Cymuned / Tref
- Yr Heddlu
- Clybiau Chwaraeon
- Ysgolion
- Clwb Hwylio
- Merched y Wawr
- Cymdeithasau Capel ac Eglwys
- Mantell Gwynedd
- Age Cymru
- Tafarn y Fic
- Nant Gwrtheyrn
- M-SParc / Ffiws
- Canolfan y Gwystl
- Bryn Meddyg
- Y Neuadd
- Busnesau

### 5.2 Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Amgueddfa Lloyd George wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu dros y 2 flynedd diwethaf.
- Gwaith ymgysylltu sy'n benodol i gynlluniau Menter y Plu.
- Peth trafod, er yn aneffeithiol, rhwng y Cyngor Tref a Chyngor Gwynedd ynglŷn â sefydlu a datblygu'r Warchodfa Natur.
- Gweithgareddau ymgysylltu Hafod Ceiri
- Gweithgareddau ymgysylltu Pwyllgor Cae Chwarae.
- Holiadur gym cymunedol gan Antur Aelhaearn.
- Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad cartrefi modur.
- Cyngor Cymuned Pistyll wedi edrych ar faes parcio.
- Cynghorau cymuned a thref yn gweithredu ar ran y gymuned, e.e. creu deiseb i ddangos faint o alw oedd gan y gymuned i gael llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen.
- Gwaith ymchwil gan Richard Parry Hughes yn ystod 2 -3 blynedd diwethaf ar effaith cynllunio tir ers 50 mlynedd ar Ben Llŷn
- Adroddiad Seimon Brooks ar ail gartrefi yn waith diweddar, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru.

**5.3 Materion eraill yn ymwneud a'r gwaith Ardal Ni 2035 oedd wedi codi yn Nalgylch Pwllheli:**

- Dim eisiau gweld 'siop siarad', eisiau gweld rhywbeth pendant yn dod o'r gwaith ymgysylltu ac yn bwysig ei barhau.
- Pwysigrwydd holi pobol a theuluoedd ifanc y dref am eu gweledigaeth ar gyfer 2035 - buasai cynnal cyfarfodydd i gael barn yn syniad da.